# Crynodeb Gwirio Ansawdd
# Deintyddfa Abergele
# Dyddiad y gweithgarwch: 14 Ionawr 2022

Dyddiad cyhoeddi: 18 Chwefror 2022





Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: agic@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN digidol 978-1-80391-711-5

© Hawlfraint y Goron 2022

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Ddeintyddfa Abergele fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r practis yn cynnig ystod o driniaethau deintyddol y GIG a rhai preifat ac mae ganddo un deintydd, dwy nyrs ddeintyddol ac un hylenydd deintyddol. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol sy'n cael eu cynnig gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 a Rheoliadau Deintyddion a Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygu a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Ciplun yw gwiriadau ansawdd o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio trefniadau sydd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol ar weithrediad diogel gwasanaethau yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad â'r prif ddeintydd, a oedd hefyd yr unigolyn cyfrifol, a rheolwr y practis ar 14 Ionawr 2022, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am eu gwasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r llwybrau ymholi allweddol canlynol:

- Pa newidiadau ydych chi wedi'u gweithredu yng ngoleuni COVID-19 i sicrhau y cynhelir safonau atal a rheoli heintiau?
- Sut ydych yn sicrhau y gall yr holl gleifion (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed / mewn perygl) gyrchu gwasanaethau mewn modd priodol a diogel?
- Sut ydych yn diwallu anghenion cleifion Cymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd trwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu wedi addasu yn ystod y cyfnod hwn o COVID-19?
- Sut ydych yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull sy'n seiliedig ar hawliau'n cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth?

## Yr amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal i'w gadw mor ddiogel â phosib i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Yr asesiadau risg / archwiliadau amgylcheddol mwyaf diweddar
- Tystysgrif legionella, archwiliad boeler, tystysgrif profion dyfeisiau cludadwy, asesiad risgiau tân a chofnod diogelwch

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Disgrifiodd y prif ddeintydd y newidiadau a wnaed i'r amgylchedd er mwyn sicrhau bod y practis yn gallu cadw pellter cymdeithasol rhwng staff a chleifion. Roedd y rhain yn cynnwys caniatáu un claf yn unig yn y practis ar y tro ac aelod o staff yn rheoli llif y cleifion y tu mewn i'r practis.

Dywedwyd wrthym nad oedd y newidiadau wedi effeithio ar allu'r practis i ddarparu gweithgareddau cofrestredig, er bod hyd amseroedd apwyntiadau wedi cynyddu ychydig i ganiatáu amser ar gyfer glanhau ychwanegol ac unrhyw gyfnod segur.[1] Arhosodd y practis ar agor trwy gydol y pandemig.

Dywedodd rheolwr y practis fod dwy ystafell driniaeth ar y llawr gwaelod a oedd yn cael eu defnyddio gan y deintydd a'r hylenydd deintyddol. Cafodd yr ystafell driniaeth a ddefnyddir gan yr hylenydd ei defnyddio ar gyfer gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol.[2] Roedd yr ystafell wedi'i thacluso a dim ond yr offer angenrheidiol ar gyfer y weithdrefn oedd ar ôl yn yr ystafell.

Wrth wneud apwyntiad a chyn mynychu ar gyfer triniaeth, dywedwyd wrthym y gofynnwyd cyfres o gwestiynau sgrinio i'r cleifion. Roedd hyn er mwyn sicrhau nad oedd gan y claf unrhyw symptomau COVID-19. Cynghorwyd y claf i gyrraedd ar yr amser penodedig, er mwyn gwahanu cleifion oddi wrth ei gilydd. Roedd cloch alw wrth fynedfa'r practis, felly roedd modd gweld y claf cyn mynd i mewn i'r practis. Gofynnwyd i'r cleifion ddefnyddio hylif diheintio dwylo a gwisgo masg ar ôl iddynt ddod i mewn i'r practis.

[1] Cyfnod segur yw'r amser segur yn yr ystafell driniaeth ar ôl cynnal gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol sy'n caniatáu i unrhyw ddefnynnau setlo cyn i'r broses lanhau a dihalogi gael ei chynnal.

[2] Mae gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol yn weithdrefn feddygol a all arwain at ryddhau gronynnau yn yr awyr (aerosolau) o'r system anadlu wrth drin rhywun yr amheuir ei fod, neu ei bod yn hysbys ei fod, yn dioddef o gyfrwng heintus a drosglwyddir yn gyfan gwbl neu'n rhannol trwy'r awyr neu drwy ddefnynnau.

Dywedwyd wrthym fod un aelod o staff a oedd yn gallu siarad Cymraeg â chleifion pe bai angen. Roedd cyfleusterau hefyd i ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain ar gyfer cleifion trwm eu clyw ac roedd llinell gyfieithu ar gael. Roedd y practis yn ymwybodol o'r cleifion a oedd ag anhawster wrth siarad Saesneg neu a oedd yn well ganddynt siarad Cymraeg.

Rhoddwyd tystiolaeth i ni hefyd o nifer o asesiadau risg ac ardystiad i ddangos bod y practis wedi ystyried diogelwch y safle, y staff a'r cleifion.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o heintiau, er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Copi o archwiliad dihalogi Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 mwyaf diweddar a'r cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella
- Polisïau rheoli heintiau cyffredinol a pholisïau penodol ynghylch COVID-19
- Yr asesiadau risg / archwiliadau rheoli heintiau mwyaf diweddar
- Amserlenni glanhau

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Disgrifiwyd y prosesau yn y practis i leihau'r risg o heintiau i staff a chleifion pan oedd gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol yn cael eu cynnal. Roedd y rhain yn cynnwys y cyfnod segur a ganiateir ar ôl glanhau ystafell driniaeth lle bu gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol a'r hyfforddiant ar y cyflau[3] a ddefnyddir yn ystod y triniaethau hyn. Roedd staff hefyd wedi derbyn arweiniad ar sut i ddefnyddio'r cyflau gan gydweithwyr mewn deintyddfa gyfagos.

Dywedwyd wrthym fod staff wedi cael gwybod am y newidiadau i ganllawiau, prosesau a gweithdrefnau deintyddol yn ystod y pandemig wrth iddynt gael eu cyhoeddi gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrif Swyddog Deintyddol Cymru. Rhoddwyd hyfforddiant ychwanegol i staff ar ddarparu gofal diogel ac effeithiol yn ystod y pandemig, gan gynnwys gwisgo a diosg[4] cyfarpar diogelu personol a glanhau ychwanegol yr oedd ei angen.

Dywedodd y prif ddeintydd wrthym am y mesurau a roddwyd ar waith i sicrhau bod staff yn

[3] Cwfl ffabrig gyda feisor plastig i amddiffyn yr wyneb. Mae'n darparu aer glân trwy hidlydd Aer Gronynnol Effeithlonrwydd Uchel (HEPA) gan ddefnyddio ffan wedi'i osod ar felt y gwisgwr.
[4] Gwisgo – gwisgo cyfarpar diogelu personol; diosg – tynnu cyfarpar diogelu personol.

hyderus ac yn gymwys i ddefnyddio cyfarpar diogelu personol. Roedd hyn yn cynnwys gwirio ei gilydd wrth wisgo a diosg cyfarpar diogelu personol, gan gynnwys gwirio'r cyflau a ddefnyddir. Dywedwyd wrthym fod y cyflau yn canu os oedd aer yn dianc. Roedd posteri gwisgo a diosg yn y ddeintyddfa hefyd.

Dywedwyd wrthym na fu unrhyw broblemau o ran cyrchu cyfarpar diogelu personol yn ystod y pandemig, er bod prisiau wedi cynyddu'n sylweddol. Roedd y bwrdd iechyd hefyd yn cynorthwyo'r practis trwy ddarparu cyflenwadau o gyfarpar diogelu personol. Er mwyn sicrhau bod lefelau stoc digonol o gyfarpar diogelu personol yn cael eu cynnal yn y practis, dywedwyd wrthym fod rheolwr y practis yn gwirio lefelau'r stoc yn rheolaidd. Roedd y staff hefyd wedi cael eu cyfarwyddo i hysbysu rheolwr y practis pan oedd y stoc yn is na'r lefel archeb isaf.

Rhoddwyd copïau i ni o amserlenni glanhau'r ddeintyddfa ar gyfer yr wythnos flaenorol, a oedd yn dangos bod y staff yn dilyn y polisi glanhau, a welwyd hefyd. Roedd yr archwiliad dihalogi Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 diweddaraf a'r cynllun gweithredu hefyd yn dangos bod y practis wedi mynd i'r afael â'r holl feysydd i'w gwella a nodwyd gan yr archwiliad. Roedd y weithdrefn glanhau â llaw lawn yn dangos bod offerynnau yn cael eu gwahanu a'u glanhau cyn sterileiddio â llaw. Roedd y copïau o'r gwiriadau dyddiol ar gyfer yr awtoclaf a ddarparwyd mewn trefn.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC holi cynrychiolwyr y gwasanaeth ynghylch sut, yng ngoleuni effaith COVID-19, maent wedi addasu eu gwasanaeth. Gwnaethom ystyried a yw’r trefniadau rheoli yn sicrhau bod staff yn addas yn eu rolau ac wedi'u hyfforddi'n briodol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Adroddiad Rheoliad 23 (ymweliad unigolyn cyfrifol) neu, os yw'r unigolyn cyfrifol hefyd yn rheolwr cofrestredig, copi o'r adroddiad blynyddol diweddaraf a baratowyd o dan Reoliad 16(3) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017
- Polisïau/gweithdrefnau cydsyniad gwybodus
- Polisïau/prosesau corfforaethol i sicrhau parodrwydd am argyfwng pandemig yn y dyfodol
- Cynlluniau parhad busnes
- Cofnodion hyfforddiant gorfodol i'r holl staff
- Canran y cyfraddau cwblhau cyfredol ar gyfer hyfforddiant gorfodol
- Asesiadau risg a gymerwyd mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau, yr amgylchedd, ac iechyd a diogelwch staff

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Dywedodd y prif ddeintydd wrthym, er bod y practis wedi aros ar agor ers dechrau'r pandemig, na chynhaliwyd unrhyw driniaethau yn y practis i ddechrau. Fodd bynnag, cynhaliwyd ymgynghoriadau dros y ffôn a gwnaed atgyfeiriadau i glinigau'r bwrdd iechyd. Dywedwyd wrthym, unwaith roedd y practis yn gallu agor i gleifion, mai dim ond mewn argyfwng y byddai unrhyw gleifion â symptomau COVID-19, neu sy'n aros am ganlyniad prawf, yn cael eu gweld. Byddent yn cael eu gweld ar ddiwedd y dydd ac yn mynd yn syth i'r ystafell driniaeth trwy ddrws cefn.

Dywedwyd wrthym nad oedd absenoldebau staff wedi effeithio ar ddarpariaeth y gwasanaethau. Roedd y practis yn gweithredu system gyfeillio gyda phractis lleol arall i ddefnyddio staff nyrsio deintyddol ei gilydd. Roedd yn ofynnol i staff gymryd profion llif unffordd dair gwaith yr wythnos, a phe bai ganddynt beswch, byddent yn gwneud prawf bob dydd.

Yn absenoldeb hyfforddiant wyneb yn wyneb, dywedwyd wrthym fod staff yn defnyddio pecyn hyfforddi ar-lein, lle gallant ddilyn yr hyfforddiant. Byddai'r tystysgrifau hyfforddi'n cael eu hargraffu a'u cadw mewn ffeiliau datblygiad proffesiynol parhaus. Roedd y practis hefyd yn gallu darparu hyfforddiant cynnal bywyd sylfaenol wyneb yn wyneb i staff ym mis Tachwedd 2021.

Dywedwyd wrthym fod offer a meddyginiaethau brys yn cael eu gwirio'n rheolaidd. Roedd y silindrau ocsigen yn cael eu gwirio bob dydd ac roedd gwiriadau wythnosol yn cael eu nodi o gyffuriau brys ac offer ategol eraill. Roedd gan yr oergell hefyd arddangosiad tymheredd a oedd yn cael ei gofnodi bob dydd. Byddai cyffuriau brys yn cael eu diogelu yn y practis dros nos.

Dywedodd y practis ei fod wedi sicrhau bod pawb yn cael ei drin yn gyfartal. Roedd mynediad cyfartal i'r ddeintyddfa a oedd yn rhoi mynediad i bawb gan fod yr ystafelloedd triniaeth ar y llawr gwaelod.

Gwelsom ddatganiad o ddiben a thaflen gwybodaeth i gleifion gyfredol, a oedd yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am y gwasanaethau a gynigir gan y practis.

Gwelsom gopi o’r adroddiad blynyddol, a baratowyd yn unol â Rheoliad 16(3) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Roedd y cofnod hyfforddiant gorfodol ar gyfer yr holl staff yn dangos eu bod yn meddu ar yr hyfforddiant gofynnol ac roedd y deintydd a rheolwr y practis hefyd wedi trefnu hyfforddiant Cymorth Cyntaf yn y Gwaith ym mis Chwefror 2022.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Rhoddwyd copïau i ni o bolisïau a gweithdrefnau amrywiol, gan gynnwys y datganiad o ddiben a thaflen gwybodaeth i gleifion ddiweddaraf. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd dyddiad ar nifer o'r dogfennau hyn ac nad oeddent yn cynnwys dyddiad adolygu. Mae'n ofynnol i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl ddogfennau yn y practis wedi'u dyddio, ynghyd â dyddiad adolygu, er mwyn sicrhau bod y polisïau'n gyfredol.

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylai wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad cryno ar y gwiriad ansawdd fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Cynllun gwella

Lleoliad: Deintyddfa Abergele

Dyddiad y gweithgarwch: 14 Ionawr 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn eu cylch sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Sylwer, disgwylir i'r holl gamau gweithredu gael eu cwblhau o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r cynllun gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

| Cyfeirnod | Yr hyn y mae angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Mae'n ofynnol i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl ddogfennau yn y practis wedi'u dyddio, ynghyd â dyddiad adolygu, er mwyn sicrhau bod y polisïau'n gyfredol. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Adran 8(6) | Mae pob dogfen wedi'i dyddio ac mae dyddiad adolygu arnynt bellach. | RB | Cwblhawyd 21/01/2022 |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Enw: Razvan Beretchi

Dyddiad: 01/02/2022